

Ein practis meddyg teulu yw'r cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (EPS) newydd cyffrous



Portffolio Trawsnewid Gweinyddu
Meddyginiaethau'n Ddigidol
Digital **Medicines** Transformation
Portfolio

Beth yw'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig?

Mae'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (EPS) yn wasanaeth newydd gan GIG Cymru a fydd yn eich helpu chi, y GIG a'r amgylchedd. Mae'r gwasanaeth rhad ac am ddim, hawdd ei ddefnyddio a diogel hwn yn gadael i ni anfon eich presgripsiwn yn electronig i'ch fferyllfa. Nid oes angen ffurflen bapur a bydd yn arbed amser gan na fydd angen casglu eich presgripsiwn o'r feddygfa mwyach.

Mae Canolfan Feddygol Lakeside a Fferyllfa Ffordd Wellington yn cymryd rhan yn y prawf cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r gwasanaeth rhagnodi electronig cyn iddo gael ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru.

Beth yw manteision y Gwasanaeth Rhagnodi Electronig?

Bydd yn arbed amser gan na fydd angen casglu'ch presgripsiwn o'r feddygfa.

Os byddwch chi'n cael ymgynghoriad dros y ffôn neu fideo, ni fydd yn rhaid i chi ymweld â'r feddygfa i gasglu eich presgripsiwn.

Gallwch ein helpu i brofi'r gwasanaeth newydd cyffrous hwn cyn iddo gael ei ddefnyddio ledled Cymru.

Byddwch yn helpu'r amgylchedd drwy leihau ein defnydd o bapur.

Cofrestru i ddefnyddio'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig

Mae cofrestru yn syml. Os ydych chi fel arfer yn ymweld â Fferyllfa Ffordd Wellington, siaradwch â'r staff yno. Os byddwch fel arfer yn mynd i fferyllfa arall, peidiwch â phoeni, bydd EPS yn dod i fferyllfeydd eraill yn y dyfodol agos. Nid oes angen cyfrifiadur, gliniadur na ffôn clyfar arnoch i gofrestru a bydd eich data yn ddiogel.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Am fwy gwybodaeth
ewch i dhw.nhs.wales
neu defnyddio cod QR